# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-15-06(p3)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 26 Hydref2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adroddiad y gweinidog i'r pwyllgor iechyd a gofal cymdeithasol

#### Agenda

1. Cynllun grant i ddatblygu grwpiau cymorth cyfoedion a dulliau cefnogi eraill bwydo ar y fron
2. Gwobr CHKS y 40 ysbyty gorau
3. Cyngor pellach i'r GIG ac Awdurdodau Lleol ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG
4. Papur Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Prif Gerrig Milltir
5. Yr oedi cyn cyhoeddi Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol)
6. Presgripsiwn Llyfrau Cymru
7. GM yn halogi reis grawn hir o'r America
8. Cyllid ar gyfer cam nesaf yr Ysbyty Plant
9. Tâl am barcio ar safleoedd ysbytai Ymddiriedolaeth GIG
10. Y newyddion diweddaraf am gynnydd ar y Prosiect Ysbytai Liw Nos
11. Y newyddion diweddaraf am restr/amseroedd aros am drawsblaniadau mêr esgyrn
12. Y newyddion diweddaraf am barhau i ariannu Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru

#### 1. Cynllun Grant I Ddatblygu Grwpiau Cymorth Cyfoedion A Dulliau Cefnogi Eraill Bwydo Ar Y Fron

1.1 Mae Bwyd a Ffitrwydd - Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng

Nghymru - Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd a lansiwyd yn ddiweddar yn amlygu pwysigrwydd deiet cytbwys, gan gynnwys manteision bwydo ar y fron. Un o'i saith prif gam gweithredu yw datblygu a darparu hyfforddiant yn gysylltiedig â'r cynllun.

1.2 Mae cynllun grantiau bach wedi'i sefydlu i grwpiau gwirfoddol a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio i hyrwyddo bwydo ar y fron. Dan gyfarwyddyd Cydgysylltydd Bwydo ar y Fron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd grantiau'n darparu cyllid ar gyfer datblygu a hyfforddi grwpiau cefnogi cyfoedion ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd.

1.3 Mae Effective Action Briefing Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar gychwyn ac am ba hyd i fwydo ar y fron yn argymell cefnogaeth gan gyfoedion fel rhan o becyn o systemau i gefnogi mamau cyn-geni ac ar ôl geni, gan ddangos manteision penodol i fenywod ar incwm isel.

1.4 Gellir defnyddio'r grantiau hefyd i ddatblygu neu brynu dulliau cefnogi eraill megis pecynnau hyfforddi cynenedigol, deunyddiau cyfoedion wedi'u haddasu'n lleol neu becynnau addysg i'w defnyddio mewn ysgolion gan weithwyr iechyd proffesiynol neu gyrff gwirfoddol.

## 2. Meincnodi Chks – Gwobr Y 40 Ysbyty Gorau

2.1 Cyflwynodd CHKS 'wobrau'r 40 ysbyty gorau' blynyddol ddydd Iau 4 Mai. Llwyddodd chwe Ymddiriedolaeth GIG o Gymru sicrhau eu llefydd ar y rhestr:

Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg;

Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru.

Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych.

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda

Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

2.2 Dyma'r tro cyntaf i Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda ac Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen gael statws y 40 ysbyty gorau.

2.3 Mae'r pedwar ysbyty arall o Gymru wedi bod ar y rhestr wobrau am sawl blwyddyn sef:

- Bro Morgannwg - 3 blynedd
- Ceredigion a Chanolbarth Cymru - 5 mlynedd

- Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych - 6 blynedd
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru - 6 blynedd.

## 3. Cyngor Pellach I'r Gig Ac Awdurdodau Lleol Ar Ofal Parhaus

3.1 Mae gofal iechyd parhaus y GIG yn cael ei ariannu'n llawn gan y GIG, mewn ysbyty, cartref gofal neu yn y cartref. Mae'n cael ei ddarparu i'r rhai sydd angen gofal iechyd yn anad dim. Os mai gofal personol a llety sydd ei angen fwyaf, mae'n ofynnol i breswylwyr mewn cartrefi gofal gyfrannu'n ariannol, gyda chefnogaeth cyllid awdurdod lleol lle y bo angen. Dyma yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol ers 1948. Yn 2004, cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau newydd i roi mwy o eglurdeb o ran pwy oedd â hawl i gael cyllid gofal iechyd parhaus y GIG .

3.2 Ym mis Ionawr 2006, cododd dyfarniad Maureen Grogan v. Bexley NHS Care Trust nifer o faterion mewn perthynas â gweithdrefnau a meini prawf asesu a oedd yn cael eu cymhwyso i benderfyniadau ar gymhwyster i gael gofal iechyd parhaus y GIG. Yn benodol, roedd yn canolbwyntio ar derfynau cyfrifoldebau awdurdodau lleol i ddarparu gofal. O ganlyniad, mae cylchlythyr newydd yn cael ei gyhoeddi fel mesur dros dro i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Lleol ynglyn â dehongli a chymhwyso'r canllawiau cyfredol, i sicrhau eu bod yn gyson â'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol. Paratoir canllawiau diwygiedig eto yn nes ymlaen i ystyried goblygiadau dyfarniad Grogan, a gweithredu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn 2007.

3.3 Gall asesiadau nyrsio gyfrannu'n sylweddol yn aml at benderfyniadau ar gymhwysedd am ofal iechyd parhaus y GIG, yn ogystal â bod yn sail i benderfyniadau ar Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG. Mae'r Llyfr Gwaith Nyrsys a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn 2001 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r polisi hwnnw yn cael ei ail-gyhoeddi ar ôl ei ddiweddaru i ystyried y sefyllfa gyfreithiol gyfredol, gyda phecyn hyfforddi ategol.

## 4. Papur Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Prif Gerrig Milltir

4.1 Cyhoeddwyd Papur Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol ar gyfer ymgynghori ym mis Awst ac mae wedi'i ddosbarthu i holl Aelodau'r Cynulliad. Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori rhanbarthol ar y Papur yn ddiweddar oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid. Cynhaliodd fy swyddogion sesiynau briffio i'r AIGC ac Aelodau'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ddydd Mawrth.

4.2 Strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru fydd Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol. Mae'r Strategaeth ddrafft yn pwysleisio y dylai gwasanaethau Cymdeithasol barhau yn rhan unedig ac annatod o Lywodraeth Leol ac y dylai barhau i foderneiddio er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel, hygyrch a phersonol. Mae'r Strategaeth yn dweud bod angen i wasanaethau Cymdeithasol adfer eu cydbwysedd fel eu bod yn cefnogi pobl yn gynt er mwyn cynorthwyo pobl i gadw eu hannibyniaeth a chefnogi teuluoedd fel eu bod yn gallu gofalu am eu plant tra'n rheoli unrhyw beryglon.

4.3 Dyma'r cerrig milltir allweddol sydd ar ôl i ddatblygu'r strategaeth:

- Ymgynghori Ffurfiol yn gorffen 15 Tachwedd 2006
- Lansio'r ddogfen derfynol Wythnos yn dechrau 26 Chwefror 2007 (i'w gadarnhau)

4.4 Rwyf yn cynnig y dylai gweithredu'r Strategaeth derfynol gynnwys cyfres o gynlluniau gweithredu treigl tair blynedd sy'n cyd-fynd â chyfnodau tair blynedd y Cynllun Oes a chyda setliadau refeniw llywodraeth leol tair blynedd. Byddai pum ffrwd waith annibynnol yn rheoli'r gweithredu:

· Arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf

· Comisiynu effeithiol

· Rheoli perfformiad trwyadl

· Partneriaethau effeithiol sy'n darparu ar gyfer pobl

· Gweithlu medrus a all ddarparu gwasanaeth yn canolbwyntio ar bobl

## 5. Oedi Cyn Cyhoeddi Rheoliadau'r Gig (Gwasanaethau Fferyllol)

5.1 Mae'r materion sy'n ymwneud â natur wledig a rheoli ymuno yn gymhleth. Cynhaliwyd ymgynghoriad manwl y llynedd. Mae canlyniadau hwn wedi'u cymhathu ac mae cynigion yn cael eu llunio i mi eu hystyried. Rydym wedi edrych yn fanwl ar enghraifft Lloegr ac efallai y bydd rhai newidiadau yn adlewyrchu hwnnw; ond gall fod yn fwy priodol hefyd i amrywio'r newidiadau yn ôl anghenion Cymru. Yr hyn sy'n berthnasol i hyn yw adolygiad sydd ar waith ar hyn o bryd i newidiadau a weithredwyd gan yr Adran Iechyd, a gallai'r canlyniadau lywio ein cynigion ymhellach. Rwyf yn benderfynol o sicrhau'r ffordd orau ymlaen i Gymru.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar roi cyffuriau ar bresgripsiwn yn eu pecyn Gwreiddiol yng Nghymru yn gynharach eleni, ac mae'r canlyniadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae angen i ni weithio ar y cyd â'r Adran Iechyd ar ddull unedig oherwydd ein Tariff Cyffuriau ar y cyd. Ar hyn o bryd maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Pwyllgor Trafod Gwasanaethau Fferyllol (PSNC) ar y mater hwn.

5.3 Mae angen y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ocsigen i gael gwared ar y dewis i ddefnyddio ffurflenni presgripsiwn i roi presgripsiwn am ocsigen. Gwneir hyn bellach trwy ddefnyddio Ffurflen Archebu Ocsigen yn y Cartref a, phan fydd y ddeddfwriaeth hon mewn grym, dyma fydd yr unig fodd i wneud hynny.

## 6. Presgripsiwn Llyfrau Cymru

6.1 Cynllun cenedlaethol yw Presgripsiwn Llyfrau Cymru (BPW) a sefydlwyd gan y Cynulliad ac sydd wedi bod ar waith ers blwyddyn bellach. Mae’r cynllun yn galluogi cleifion i gael eu cyfeirio at y llyfrau gofal iechyd gorau ymhlith y miloedd sydd ar y farchnad ym marn gweithwyr iechyd proffesiynol, ac i gael gafael ar y llyfrau hynny am ddim gan ddefnyddio’r gwasanaeth llyfrgell. Mae tri deg tri o wahanol deitlau ar gael yn y 312 o lyfrgelloedd a phedwar carchar Cymru.

6.2 Ar hyn o bryd mae BPW yn targedu’r rhai sy’n wynebu mân broblemau iechyd meddwl neu rai cymedrol, yn darparu dewis o driniaeth amgen a elwir yn bibliotherapi. Mae NICE yn argymell bibliotherapi fel rhan o raglen triniaeth fesul cam ar gyfer pryder ac anhwylderau bwyta yn benodol, er bod y cynllun yn cwmpasu deunaw o gyflyrau i gyd. Mae BPW yn un ffordd y gall gweithwyr iechyd proffesiynol ymuno â system sydd eisoes wedi’i sefydlu ar sail tegwch ac arbed costau, ac argymell llyfrau hunangymorth wedi’u dewis yn broffesiynol, a hynny’n hyderus. Gall defnyddio’r llyfrau osgoi’r angen i roi cyffuriau ar bresgripsiwn.

6.3 Mae BPW wedi’i werthuso’n annibynnol yn ddiweddar, a cheir tystiolaeth o dderbyniad cadarnhaol iawn i’r cynllun, y posibilrwydd i’w ehangu i lawer o feysydd iechyd eraill a’r angen am fwy o gyhoeddusrwydd.

## 7. Gm Yn Halogi Reis Grawn Hir O’r America

7.1 Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori, yn unol â Phenderfyniad CE, y dylai pob cyflenwad o reis grawn hir sy’n cael ei fewnforio o Unol Daleithiau America i unrhyw wlad yn y CE gyrraedd gyda thystysgrif yn cadarnhau nad yw’r cyflenwad yn cynnwys reis LL601 GM penodol diawdurdod. Mae unrhyw gyflenwadau sy’n cyrraedd heb dystysgrif yn cael eu cadw yn y pwynt mynediad, gan gynnwys y rhai yng Nghymru, hyd nes y gellir cael tystysgrif nad ydynt yn cynnwys reis GM.

7.2 Mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn arwain trafodaethau gydag awdurdodau’r UD i sicrhau nad oes cynhyrchion pellach yn cynnwys deunyddiau GM diawdurdod yn cael eu hallforio i Ewrop.

7.3 Hefyd, mae’r Asiantaeth Safonau bwyd wedi comisiynu arolwg o reis grawn hir o’r America ym melinau reis y DU, i wneud yn siwr nad oes unrhyw sypiau pellach o reis sydd wedi’i effeithio yn cyrraedd y gadwyn fwyd. Mae samplau wedi’u casglu ac mae’r Asiantaeth yn disgwyl canlyniadau’r profion dadansoddol a gynhaliwyd. Bydd y labordai sy’n cynnal y profion yn hysbysu’r Asiantaeth yn ddi-oed os ceir unrhyw ganlyniadau cadarnhaol fel y gall y melinau dan sylw gael gwybod a chymryd y camau angenrheidiol. Nid oes unrhyw felinau reis yng Nghymru.

7.4 Mae’r ASB ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) wedi cynnal dadansoddiad risg. Mae’r Asiantaeth sydd wedi cyhoeddi cyngor dros dro yn gynharach, yn cytuno â barn yr EFSA, er gwaethaf data annigonol ar gyfer cyflawni asesiad risg llawn (fel y byddai’n cael ei gynnal ar gyfer awdurdodi bwydydd GM newydd) yna, ar sail y dystiolaeth gyfredol, nid yw reis sy’n cynnwys lefelau bach iawn o ddeunydd GM diawdurdod yn debygol o achosi pryder o safbwynt diogelwch yn y dyfodol agos. Mae cyngor i ddefnyddwyr yn parhau’r un fath: os oes gan ddefnyddwyr reis grawn hir o’r UD yn eu cartref, gallant barhau i’w fwyta.

7.5 Mae’r ASB wedi parhau i roi gwybod i bartïon â buddiant am ddatblygiadau mewn perthynas â’r digwyddiad hwn ac wedi darparu’r newyddion diweddaraf ar ei gwefan.

## 8. Cyllid Ar Gyfer Cam Nesaf Yr Ysbyty Plant

8.1 Gwariwyd cyfanswm o £11.35 miliwn ar ddatblygu cam cyntaf Ysbyty Plant Cymru, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu £4.9 miliwn.

8.2 Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro, mewn trafodaethau gyda’i chomisiynwyr sy’n datblygu cam nesaf yr Ysbyty Plant arfaethedig. Mae’r trafodaethau yn canolbwyntio ar yr amrywiaeth o wasanaethau y bydd y cyfleuster yn eu cynnig, yn enwedig gwasanaethau mwy cymhleth megis darpariaeth Damwain ac Argyfwng pediatrig a theatr bediatrig.

8.3 Nodwyd swm cyfalaf dangosol o £38.5 miliwn yn y Cynllun Oes ar gyfer camau 2a a 2b y datblygiad ysbyty arfaethedig. Fodd bynnag, hyd nes y bydd yr Achos Amlinellol Strategol (cam cyntaf proses achos busnes tri cham) ar gyfer y cam hwn wedi’i ddatblygu a’i gyflwyno, ni fydd gofyniad cyllido cliriach, cyfalaf a refeniw, ar gael. Y comisiynwyr, Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiynydd Iechyd Cymru, fydd yn cytuno i gyllido canlyniadau refeniw’r datblygiad tra bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu’r cyfalaf. Mae swyddogion yn disgwyl y bydd yr Achos Amlinellol Strategol ar gael tua diwedd y flwyddyn galendr hon.

## 9 Tâl Am Barcio Ar Safleoedd Ysbytai Ymddiriedolaeth Gig

9.1 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfarwyddo na rhoi canllawiau i Ymddiriedolaethau GIG ar y mater o dâl am barcio ar safleoedd ysbytai. Cyfrifoldeb pob Ymddiriedolaeth GIG yw hyn yn yr un modd â materion gweithredol eraill i’w penderfynu’n lleol.

9.2 Mae Ymddiriedolaethau GIG yn dilyn y canllawiau yng nghyhoeddiad yr Adran Iechyd NHS Income Generation - Best Practice (Chwefror 2006). Mae hwn yn cyfeirio at Ganllawiau Trysorlys EM ac yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i gynlluniau creu incwm gael eu prisio’n deg a rhaid iddynt o leiaf adennill y costau’n llawn, gan gynnwys gorbenion, dibrisiad asedau ac elw priodol ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd. Gall ymddiriedolaethau wedyn ddefnyddio unrhyw incwm sy’n warged fel y dymunant.

## 10. Y Newyddion Diweddaraf Am Gynnydd Y Prosiect Ysbytai Liw Nos

10.1 Ar hyn o bryd mae saith o’r 13 o Ymddiriedolaethau GIG Cymru wedi datblygu a gweithredu model Ysbytai Liw Nos (H@N) sef:

- Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
- Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro
- Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych

- Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent (gan gynnwys Ysbyty Caerffili a'r Cylch ac Ysbyty'r Glowyr)
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
- BILl Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Abertawe.

10.2 Mae'r ymddiriedolaethau eraill yn bwriadu lansio cynllun yn gynnar yn 2007.

Mae Cydgysylltydd Meddygon Iau y Cynulliad a rheolwr Prosiect y Fargen Newydd/EWTD yn bwriadu parhau i fonitro cynnydd gweithredu H@N yn ymarferol yng Nghymru ac yn cynnig cefnogaeth i ymddiriedolaethau fel y bod angen.

10.3 Mae gan Sir Benfro a Derwen a Gogledd Ddwyrain Cymru arweinwyr prosiect

H@N llawn amser, gyda'r ddwy swydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd.

## 11. Y Newyddion Diweddaraf Am Amseroedd Aros Am Drawsblaniadau Mêr Esgyrn

11.1 Mae Her Iechyd Cymru wedi bod yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i fynd i'r afael â phroblemau gallu yn y gwasanaethau Trawsblannu Mêr Esgyrn. Mae nifer y trawsblaniadau mêr esgyrn a ariannwyd gan HIC wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

11.2 Ers mis Ebrill, mae Ymddiriedolaeth Caerdydd a'r Fro wedi cychwyn sawl menter er mwyn cynyddu'r gallu ar gyfer trawsblannu mêr esgyrn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi agor dau wely ychwanegol a phenodi dwy nyrs arbenigol i gynorthwyo i reoli cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnal peilot ar ddefnyddio cyfleusterau gwesty yn y llwybr gofal ar gyfer trawsblannu mêr esgyrn, ac wedi cryfhau gweithdrefnau ar gyfer asesu cyfeiriadau i'r gwasanaeth trawsblannu mêr esgyrn. Gyda'i gilydd mae'r camau hyn wedi gwella mynediad i Drawsblaniadau Mêr Esgyrn.

11.3 Hefyd Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n gofalu am Gofrestra Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru (WBMDR) sy'n cwmpasu'r Canolbarth a'r De. Sefydlwyd yr WBBMDR yn ystod 1988 fel cyd-fenter rhwng y Regional Tissue Typing Laboratory Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r British Bone Marrow Donor Appeal. Mae'n recriwtio'i holl roddwyr panel o blith rhoddwyr gwaed gwirfoddol Gwasanaethau Gwaed Cymru. Yr WBMDR yw un o'r mwyaf llwyddiannus yn y byd o safbwynt cydweddu rhoddwyr mêr esgyrn posibl â derbynwyr. Mae'r gwaith o brofi rhoddwyr yng Nghymru o safon mor uchel fel eu bod bellach yn rhan o rwydwaith rhoddwyr i ymladd clefydau gwaed ym mhedwar ban byd.

## 12. Y Newyddion Diweddaraf Ar Barhau I Ariannu Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru

12.1 Ariannwyd y Rhwydwaith Niwrogyhyrol hyd yma gan yr Ymgyrch Nychdod Cyhyrol. Nid yw Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro wedi nodi’r gwasanaeth hwn fel blaenoriaeth yn nhrafodaethau Cytundeb Lefel Gwasanaeth 2006-07 gyda Chomisiwn Iechyd Cymru. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn parhau i weithio’n agos gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro. Os nodir y Rhwydwaith yn flaenoriaeth am gyllid yn 2007-08 gan yr Ymddiriedolaeth, caiff ei ystyried gyda'r holl flaenoriaethau eraill yng nghynllun comisiynu Comisiwn Iechyd Cymru ar gyfer 2007-08.